

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Mai 2014
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill a Paul McGrady
Awdur yr Adroddiad:	Arwel Staples, Rheolwr Caffael Strategol
Teitl:	Prosiectau Trawsnewid Caffael

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yw diweddarau'r Cabinet ar ddau brosiect trawsnewid caffael:

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 I'r Cabinet ystyried a chytuno ar yr achos busnes terfynol ar gyfer uno Unedau Caffael Corfforaethol Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

- 2.2 I'r Cabinet ystyried a chytuno ar yr achos busnes terfynol ar gyfer y prosiect Caffael y Tair Sir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 I'r Cabinet gefnogi'r achos busnes terfynol ar gyfer uno timau caffael Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn un Uned Caffael Corfforaethol wedi'i chynnal gan Sir Ddinbych.

- 3.2 Datblygu a chytuno ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddirprwyo'r Uned ar y cyd i swyddogion priodol (Pennaeth Cyllid ac Asedau, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Rheolwr Caffael Strategol) mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Cyllid ac Effeithlonrwydd.

- 3.3 I'r Cabinet gymeradwyo'r achos busnes terfynol ar gyfer Prosiect Caffael y Tair Sir.

4. Cefndir

- 4.1 Yn ei gyfarfod 25 Medi 2013, cytunodd y Cabinet i gefnogi uno'r ddwy Uned Caffael Corfforaethol yn ddarostyngedig i achos busnes terfynol a threfniadau manwl ar gyfer cytuno ar yr uniad.

- 4.2 Yn ogystal, yn yr un cyfarfod, cytunodd y Cabinet i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer prosiect Caffael y Tair Sir, sy'n ymwneud yn y lle cyntaf â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwynedd yn seiliedig ar strwythur rheoli categori.

5. Ystyriaethau

Trefniadau caffael presennol o fewn Cyngor Sir Ddinbych

- 5.1 Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn destun nifer o adolygiadau mewnol ac allanol ynghylch y ffordd y caiff gweithgareddau caffael eu cynnal. Fe wnaeth Gwiriad Iechyd Caffael KPMG a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ddosbarthu'r Awdurdod fel "Datblygu tuag at Gydymffurfiaeth". Fe wnaeth y gwaith a wnaed gan y Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu achos busnes y Tair Sir hefyd dynnu sylw at faterion a gwendidau presennol, fel y gwnaeth yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar gaffael gwaith adeiladu. Mae crynodeb o'r materion a gwendidau presennol yn cael eu hamlygu yn Atodiad 9.
- 5.2 Mae'r adolygiadau ac adroddiadau uchod yn dangos yn glir, bod angen i ni wella fel Cyngor a newid yn sylweddol y ffordd y caiff caffael a chomisiynu ei wneud ar hyn o bryd. Yn ychwanegol at y cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn gofyn am raglen trawsnewid caffael sy'n gofyn bod nifer o welliannau caffael allweddol yn cael eu gweithredu, fel yr amlygwyd isod:
- Gweithredu a chyflwyno system e-gyrchu Proactis
 - Gweithredu a chyflwyno system anfonebu canolog newydd
 - Diwygio Rheolau Gweithdrefn Contractau
 - Diwygio'r Strategaeth Gaffael
 - Gweithredu rhaglen hyfforddiant caffael corfforaethol newydd

Uno Unedau Caffael Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint

- 5.1 Ers Medi 2013, mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud wrth gytuno ar yr achos busnes terfynol yn ymwneud â'r Unedau Caffael Corfforaethol. Cafwyd gweithdai gyda thimau Caffael, cynrychiolwyr AD, TGCh a Chyllid gan y ddau Gyngor.
- 5.2 Mae'r achos busnes yn amgaeedig yn Atodiad 1A wedi cael ei gytuno arno gan fwrdd y prosiect a bydd yn cael ei ystyried gan Gabinet y ddau Gyngor y mis hwn.
- 5.3 Mae Model Gweithredu newydd bwriedig a strwythur ar gyfer yr uned gyfunol wedi cael ei gynllunio, sy'n cynnwys creu Uned ar y Cyd o 10 aelod o staff (Gweler Atodiad 5). Nid yw'n bwriadu cynyddu'r niferoedd ar draws y 2 uned gyfredol ar hyn o bryd, ond drwy greu un tîm, byddwn yn lleihau dyblygu ac yn cynyddu cynhyrchiant, a datblygu categori arbenigol a rolau polisi nad yw'n bosibl ar hyn o bryd oherwydd maint bychan y 2 uned unigol.
- 5.4 Bydd manteision eraill uno yn cynnwys ein galluogi: -
- I ategu'r lefel gyfredol o allu adnoddau caffael cyfyngedig ar draws y ddau gyngor.
 - I leihau faint o ymdrech a ddyblygir
 - Gwneud y gorau o effeithlonrwydd ariannol drwy arbedion maint

- I gyflwyno egwyddorion Rheoli Categori
- I sicrhau dull sy'n fwy cydlynol wrth weithredu a rheoli'r ateb e-gaffael cyffredin,
- I reoli contractau yn fwy cadarn yn enwedig ar draws contractau critigol strategol.
- Er mwyn sicrhau y gellir dyrannu mwy o gapasiti â ffocws i sicrhau bod polisi caffael yn cael ei integreiddio o fewn bob prosiect caffael, yn enwedig o gwmpas sicrhau manteision cymunedol a chefnogi mentrau caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolog.
- Y gallu i gael mynediad at gronfeydd rhanbarthol ar gyfer gweithredu systemau TG a chefnogaeth ar gyfer gweithredu newid

5.5 Y bwriad yw y bydd yr Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd newydd yn cael ei chynnal gan Sir Ddinbych a bydd tîm caffael cyfredol Sir y Fflint yn cael eu trosglwyddo a'u cyflogi gan Sir Ddinbych. Mae'r goblygiadau staff wedi cael eu hystyried yn llawn, rhoddwyd cyngor AD ac mae ymgynghoriad llawn wedi digwydd gyda gweithwyr ac undebau llafur. Fe wnaeth cyfarfod diweddar a gynhaliwyd rhwng staff AD o'r ddau Gyngor ystyried yr angen i gymhwyso darpariaethau TUPE, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau yn dilyn trafodaethau lleol gyda'r Undebau Llafur.

5.6 Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd newydd yn cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Rheoli ar y Cyd gyda chynrychiolaeth uwch reolwyr cyfartal o'r ddau Gyngor. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i Sir y Fflint o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth cadarn i sicrhau bod eu hanghenion trefniadol a gwasanaeth a'u disgwyliadau yn cael eu bodloni. Cynigir y bydd costau'r Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd wedi'u rhannu ar sail 55% Sir y Fflint a 45% Sir Ddinbych, yn adlewyrchu lefel gwariant caffael y Cyngor unigol.

Prosiect Caffael y Tair Sir

5.7 Mae'r achos busnes ar gyfer Gwasanaeth Caffael y Tair Sir wedi cael ei ddatblygu gan y Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael ym Mhrifysgol Bangor.

5.8 Mae'r achos busnes yn dangos sut y gallai dull rheoli categori a weithredir ar draws y Tri Chyngor wireddu arbedion prynu ac ariannol strategol mawr ar gyfer pob Cyngor, unwaith y rhoddir llywodraethu effeithiol ar waith, a gefnogir gan wasanaeth cefnogi caffael a rennir.

5.9 Mae'r achos busnes wedi ystyried nifer o opsiynau ar gyfer gweithredu ac argymhellir yr opsiwn canlynol:

- Model 4 - gweithredu Rheoli Categori ar sail gwasanaeth a rennir ar draws y 3 Chyngor gyda gwasanaeth cefnogi caffael a rennir yn cael ei greu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd fwriedig rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint i

ehangu ymhellach i gynnwys Cyngor Gwynedd yn y dyfodol. Gellid gweithredu'r gefnogaeth gaffael hon a rennir ar sail rithwir.

5.10 Fodd bynnag, i gydnabod goblygiadau rheoli newid mawr sy'n gysylltiedig â gweithredu model 4, gellid rhoi ystyriaeth hefyd i weithredu model 2 i ddechrau fel cam cyntaf. Byddai hyn yn cynnwys bob Cyngor yn annibynnol, er mewn modd cydlynol, yn ymgymryd â gweithredu rheoli categorïau ar lefel leol ac yna'n symud yn gyflym i fodel 4.

5.11 Mae'r manteision sy'n deillio o weithredu fel a gynigiwyd gan y prosiect Tair Sir yn cynnwys:

- nodi a chyflawni arbedion caffael fesul categori unigol o wariant
- arbedion maint wrth gydweithio ar draws meysydd gwariant cyffredin
- gwell gallu caffael o fewn y swyddogaeth gaffael ac ar draws y sefydliad
- llai o gost caffael drwy leihau proses a staff
- gweledigaeth categori clir a strategaeth ar gyfer gwelliannau categori
- gwelliannau o ran cynllunio rheoli caffael a'r galw
- sicrhau bod pryniadau categori yn cael eu cydlynu
- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol
- sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau caffael o ran hyrwyddo adfywio a'r economi leol
- mynediad at gyllid rhanbarthol i gefnogi bod prosesau caffael newydd yn cael eu gweithredu
- mae hwn yn brosiect y gellir ei wneud yn raddol, a fyddai'n caniatáu ehangu i gynnwys unrhyw bartneriaid ychwanegol fel Cyngorau eraill i ymuno yn ddiweddarach

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

6.1 Bydd cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r Cyngor nodi a gwireddu arbedion effeithlonrwydd er mwyn moderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

6.2 Bydd y ddau brosiect a gynhwysir gyda'r prosiect hwn hefyd yn cefnogi datblygiad yr economi leol, drwy sicrhau bod ein harferion caffael yn cael eu halinio i arfer gorau caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig, ac anelu at gyflwyno'r themâu caffael sydd yn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

7. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Bydd y costau ychwanegol ar gyfer uno'r Uned Caffael Corfforaethol dros y gyllideb sylfaenol bresennol ym Mlwyddyn 1 yn £12,002, mae hyn yn cynnwys costau TG untro yn ymwneud â'r uniad, yn y blynyddoedd i ddod; bydd y cynnydd parhaus yn y gyllideb yn uchafswm o £13,629. Bydd y costau hyn yn cael eu cynnwys o fewn cyllideb Cyllid ac Asedau presennol.

7.2 Mae'r goblygiadau cost terfynol ar gyfer prosiect y Tair Sir yn aneglur ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gostau gweithredu yn cael eu hariannu'n rhannol gan Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r elw ar fuddsoddiad o'r achos busnes yn tynnu sylw at y ffaith y gellir gwireddu arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy: reoli'r galw, caffael callach, strategaethau osgoi costau yn ogystal â'r posibilrwydd o leihau nifer y staff (tua 19 o staff yng Nghyngor Sir Ddinbych). Amcangyfrifir bod y naill opsiwn neu'r llall yn yr opsiynau a argymhellir h.y. Model 2 neu Model 4, yn cyflawni rhwng £8.7 miliwn a £9.2 miliwn o arbedion effeithlonrwydd cyfunol ar draws y 3 Chyngor dros 5 mlynedd.

7.3 Bydd yr achos busnes llawn terfynol yn cael ei ddosbarthu unwaith y bydd wedi dod i law yn ystod y dyddiau nesaf. Bydd y Pennaeth Cyllid ac Asedau yn rhoi diweddariad ar lafar yn y cyfarfod.

8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

8.1 Dim yn uniongyrchol o'r adroddiad hwn

9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

9.1 Cafodd aelodau'r tîm caffael eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu'r model gweithredu, strwythurau ac achos busnes mewn perthynas â'r Uned Caffael Corfforol ar y cyd. Bydd ymgynghoriad llawn yn parhau gyda'r tîm caffael ac undebau masnach hyd at weithredu'r trefniadau newydd ar y cyd.

9.2 O ran y prosiect Tair Sir, mae nifer o weithdai wedi'u cynnal yn cynnwys swyddogion uned caffael corfforaethol yn ogystal â rheolwyr sy'n ymwneud â gwasanaethau. Cafodd y gweithdai eu trefnu gan Brifysgol Bangor i nodi arferion presennol yn ogystal â chael adborth ar fodelau gweithredu targed a ffefrir yn y dyfodol.

10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r ddau brosiect hyn â'r potensial i wella'r modd y caiff caffael ei wneud o fewn y Cyngor yn sylweddol, gan arwain at fwy o gydymffurfio â rheoliadau, gwell gwerth am arian a llai o gost. Fodd bynnag, mae'n dibynnu ar ymgysylltiad gyda, a chefnogaeth, gwasanaethau o fewn y Cyngor gan nad oes modd i'r staff caffael yn unig wneud hyn.

11. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1 Mae'r risgiau ar gyfer y ddau brosiect yn cael eu hamlinellu yn yr achosion busnes priodol. Mae unrhyw brosiect sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill yn cario rhywfaint o risg ynghylch parodrwydd i gydweithio, gwahanol bolisiau a strategaethau a gwahanol alluoedd. Mae'r tri chyngor wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i leihau'r rhain gymaint ag sy'n bosibl.

- 11.2 Ceir risg hefyd risg bod adrannau unigol o fewn y Cyngor yn methu â chymryd rhan yn y rhaglen ac nid yn gweld y manteision. Bydd angen ymgysylltu'n ofalus â nhw.

12. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 12.1 CPR 7.1 o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau